



Ymateb i adroddiad thematig Estyn ar y ddarpariaeth i ddisgyblion ysgol uwchradd sy'n Sipsiwn, Roma neu'n Deithwyr

**Teitl yr adroddiad:**

Y Ddarpariaeth i ddisgyblion oedran uwchradd sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**Manylion yr adroddiad**

Cafodd yr adroddiad ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru yn dilyn argymhelliad a ddeilliodd o ymchwiliad 2017 gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol i'r *Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig*. Yr argymhelliad oedd:

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, gan roi'r diweddaraf ar y sefyllfa ers ei adroddiad thematig diwethaf yn 2011. Dylai adolygiad Estyn ystyried effaith y trefniadau ariannu newydd ers 2015-16 a dylai hefyd ystyried y mater ehangach o ba mor dda y mae 'haen ganol' addysg (y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol) yn monitro ac yn gwerthuso'r deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Dylai Estyn gynnal yr adolygiad hwn fel rhan o'i gylch gwaith yn 2017-18 neu cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol.

Mae'r adroddiad yn ystyried effeithiolrwydd ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru o ran darparu cymorth i ddysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae'n cynnwys enghreifftiau o ymarfer da ac mae'n nodi cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad blaenorol yn 2011.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn unig, gan mai dyna oedd cwmpas adroddiad gwreiddiol Estyn yn 2011.

**Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau**

**Trosglwyddo**

Dim ond hanner y disgyblion Blwyddyn 6 sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRTh) sy'n mynd ymlaen i addysg uwchradd ym Mlwyddyn 7. Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i wella cyfraddau trosglwyddo, ond nid ydynt wedi cael llawer o effaith. Ers 2011, bu cynnydd o 35% yn nifer y dysgwyr SRTh mewn ysgolion uwchradd, ond dylid trin y data'n ofalus gan fod y niferoedd yn fach ac nid yw mwyafrif y rhieni yn datgan eu bod yn dod o'r cymunedau hyn rhag iddynt ddioddef erledigaeth

neu fwlio.

### **Cydnabod diwylliant**

Dim ond tua hanner polisïau gwrth-fwlio a chydaddoldeb ysgolion sy'n ystyried anghenion y dysgwyr hyn, er enghraifft sut y gall eu diwylliant effeithio ar eu presenoldeb. Mae llawer o ysgolion yn codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant a ffyrdd o fyw yn eu gwasanaethau a'u gwersi ABCh ac yn dathlu digwyddiadau, er enghraifft mis hanes SRTh. Ar y cyfan, nid yw ysgolion yn hyrwyddo digon ar ddiwylliant SRTh yn y cwricwlwm ffurfiol sy'n seiliedig ar bynciau.

### **Presenoldeb a thrafnidiaeth**

Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, ond ar y cyfan mae eu presenoldeb gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd. Mae tua hanner yr ysgolion ac awdurdodau lleol yn credu bod anawsterau trafndiaeth yn effeithio ar bresenoldeb. Mae rhai safleoedd yn bell oddi wrth lwybrau trafndiaeth arferol ac yn agos at briffyrdd heb lwybrau troed sy'n golygu y byddai cerdded i'r ysgol yn beryglus. Mae lleiafrif o ysgolion ac awdurdodau lleol yn darparu trafndiaeth ac mae hynny'n arwain at gyfraddau presenoldeb ac ymgysylltu uwch.

### **Cyrhaeddiad**

Bu rhai gwelliannau sylweddol yn y perfformiad mewn arholiadau yng Nghyfnod Allweddol 4, er bod cyrhaeddiad yn gyffredinol yn parhau i fod yr isaf o blith pob grŵp ethnig.

### **Cymorth awdurdodau lleol**

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau ac ysgolion gynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau) ar gyfer disgyblion SRTh. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio CCBau i hybu presenoldeb gan gynnwys pennu targedau realistig. Mae disgyblion, rhieni, ysgolion ac asiantaethau eraill yn cytuno ar strategaethau ar gyfer gwella sy'n cael eu monitro gan yr awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn casglu ac yn dadansoddi data ar bresenoldeb a chyrhaeddiad ond nid ydynt yn defnyddio'r data i werthuso effeithiolrwydd eu strategaethau gwella. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn parhau â'r un mathau o gymorth heb werthuso pa rai sydd fwyaf effeithiol. Mae ambell ysgol ac awdurdod lleol yn gwneud defnydd da o'r data ac yn cyflwyno newidiadau i'w strategaethau.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu cymorth yn yr ysgol drwy wasanaethau addysg teithwyr. Mae staff y rhain yn cysylltu â theuluoedd ac yn helpu disgyblion i wella presenoldeb a chyrhaeddiad. Mae'r rhan fwyaf yn

defnyddio eu staff arbenigol mewn ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion SRTh. Nid yw rhai awdurdodau lleol yn glir ynglŷn â sut maent yn dyrannu staff o'r fath.

Lle mae angen cryfhau sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion SRTh, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cymorth drwy eu hymyriadau safonol fel rhaglenni dal i fyny. Pan benderfynir fod gan ddisgybl SRTh angen dysgu ychwanegol posibl, mae cysylltiadau rhwng staff yr awdurdod lleol a chydlynedd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol a'r gwasanaeth addysg teithwyr fel arfer yn sicrhau bod y disgybl yn cael asesiadau perthnasol sy'n arwain at ddarparu cymorth addas.

### **Cyllido**

Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn credu bod uno'r Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr a'r Grant Gwella Addysg (EIG) ar gyfer ysgolion yn 2014 wedi bod yn effeithiol. Mae hyn am eu bod yn credu bod lleihad cyffredinol yn y cyllid wedi cael effaith negyddol ar y gwasanaethau yr oeddent yn gallu eu darparu. Er bod lefel gyffredinol y cyllid a oedd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru drwy'r EIG wedi ei gynnal, o fewn yr EIG roedd disgrisiwn i awdurdodau lleol i ddyrannu cyllid ar lefel yr oeddent yn ei deimlo oedd yn briodol ar sail yr angen yn lleol. Mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol wedi dyrannu cyllid ychwanegol i'r grwpiau hyn o ddisgyblion drwy eu cyllidebau craidd.

### **Dylai Llywodraeth Cymru:**

**A7** Diweddarau canllaw 2008 'Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr'

#### Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddiweddarau canllaw 2008. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn 2019.

### **Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion:**

A1 Sicrhau eu bod yn gwerthuso effeithiolrwydd eu strategaethau i wella cyflawniad, trosglwyddo a phresenoldeb\* disgyblion SRTh a chyflwyno gwelliannau os nad yw strategaethau'n arwain at y canlyniadau a ddymunir

A2 Sicrhau bod polisiau gwrth-fwlio a chydaddoldeb yn ystyried anghenion penodol disgyblion SRTh\*

R3 Sicrhau bod ysgolion yn hyrwyddo diwylliant SRTh ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol\*

R4 Sicrhau bod disgyblion SRTh yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn am eu profiadau dysgu

A5 Cydweithio i ddarparu a gwella gwasanaethau i ddisgyblion SRTh

A6 Edrych ar ffyrdd o wella hyder disgyblion a rhieni SRTh i briodoli drostynt eu hunain eu hunaniaeth ethnig yn gywir

\* Argymhelliad yn adroddiadau 2005 a 2011 Estyn

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i dynnu eu sylw at yr argymhellion a osodir arnynt hwy ac ar ysgolion yn yr adroddiad hwn.

### **Manylion cyhoeddi**

Cyhoeddir yr adroddiad ar 3 Ebrill 2019 a bydd ar gael ar wefan Estyn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/>



ISBN digidol 978-1-83876-166-0  
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2019  
WG37757